

Cwrdd â'r athro Derbyn
Meet the teacher Derbyn
2026-2027



Croeso mawr i'r Dosbarth Derbyn

Athrawes/Teacher- Mrs Anwen Ellis

Cynorthwywraig/ Teaching Assistant- Miss Izzy Godfrey

Athrawon CPA/PPA Teachers- Mrs Earles + Miss Izzy
Godfrey



Dyma fi! This is me!

Proffil Un Dudalen

Y ffordd gorau i fy nghefnogi i ...
The best way to support me ...

Cysylltiad agored rhwng y cartref a'r ysgol
Open communication between home and school
Diddordeb ym mywyd ysgol a'r dysgu sydd yn digwydd
An interest in school life and the learning that takes place
Bod yn amyneddgar – ambell waith mae'n cymryd amser i neud pethau'n iawn!
Be patient. Sometimes it takes time to get things right!

Y pethau gorau amdanaf i ...
The best things about me ...

Dwi'n berson hapus sydd yn mwynhau bod gyda'r plant bob dydd. Mae pob diwrnod yn wahanol!
I am a happy person, and I enjoy being with the little children every day. Every day is different!
Dwi'n caru canu ac mae gyda ni gân am bopeth yn y Derbyn!
I love singing and we have a song for everything in the class!

Fy enw yw / *My name is*
Mrs Anwen Ellis

Beth sy'n bwysig ar fy nghyfer i?
What's important for me?

Hiwmor, llawenydd a mwynhau dysgu gyda'n gilydd
Humour, joy and enjoying learning together

Plant yn hapus ac yn setlo yn dda yn y Dosbarth.
Children happy and settled well in the class.



Dyma fi!
This is me!

Beth sy'n bwysig i mi?
What's important to me?

Teulu/Family

Gwyliau/Holidays

Nofio/Swimming

Cerdded/Walking

Ffrindiau/Friends



Thema ~ Theme

Tymor yr Hydref - Dyma fi!

Sut mae deall pwy ydw i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'm cwmpas?

Oes arbenigedd ganddych chi fel rhieni y gallwch chi ei gynnig i'n helpu o fewn y maes?

Autumn Term Theme - This is me!

How does understanding who I am and where I belong help me understand myself, others and the world around me?

Do you as parents have any expertise in this area that you can offer to help us within this theme?



Perthyn / Belonging

Derbyn - Tymor yr Hydref / Autumn Term

Dyma fi ... / This is me ...

Trosolwg Tymor yr Hydref

Yn ystod Tymor yr Hydref, bydd y plant yn datblygu eu dealltwriaeth o'u hunain, eu teuluoedd a'r byd o'u cwmpas drwy chwarae, canu, ymchwilio a dysgu ymarferol. Byddant yn meithrin eu sgiliau creadigol, cymdeithasol a chorfforol, gan ddatblygu annibyniaeth, hyder a lles. Trwy gynllun Tric a Chlic, byddant yn datblygu eu sgiliau llythrennedd cynnar, ac mewn mathemateg byddant yn archwilio rhif, cyfrif ac amser drwy weithgareddau ymarferol a phrofiadau bob dydd. Bydd y profiadau hyn yn cefnogi'r plant i ddatblygu fel dysgwyr hapus, hyderus ac annibynnol.

Llyfrau Darllen / Reading

Books

Anghenfil Teimladau / Dwi'n hapus pan /
Rwy'n dy garu di mor fawr ar byd /
Lliwiau hapus / Mor hyfryd yw'r byd /
Cyw yn yr ysgol / Teti Twt yr ysgol / Elen
Benfelen / Tri Mochyn Bach / Diwrnod
cyntaf Douglas yn yr ysgol / Cwmp y dail
Sali Mali / Weithiau dwi'n teimlo'n heulog
/ Petai'r Byd i Gyd yn... / Ffrindiau gorau,
Ffrindiau gwych / Y Jiraff na all ddawnsio
/ Mae pawb yn wahanol



Gwaith Cartref

Creu llun ohonynt eu hunain a'u teulu gan ddefnyddio deunyddiau naturiol.

Create a picture of themselves and their family using natural materials.



Rhifedd / Numeracy

Bydd gweithgareddau rhifedd yn digwydd yn ddyddiol yn y dosbarth. Gallwch gefnogi dysgu eich plentyn gartref drwy annog gweithgareddau syml fel adrodd rhifau, cyfrif gwrthrychau, dosbarthu eitemau a mesur mewn sefyllfaoedd bob dydd. Mae gweithgareddau megis coginio, siopa a chwarae gemau bwrdd yn datblygu sgiliau rhifedd yn wych!

Numeracy activities will take place daily in the classroom. You can support your child's learning at home by encouraging simple activities such as reciting numbers, counting objects, sorting items, and measuring in everyday situations. Activities such as cooking, shopping, and playing board games are also great ways to develop numeracy skills.

Autumn Term Overview

During the Autumn Term, children will develop their understanding of themselves, their families and the world around them through play, songs, exploration and practical learning. They will build their creative, social and physical skills while developing independence, confidence and wellbeing. Through the Tric a Chlic phonics programme, children will develop their early literacy skills, and in mathematics they will explore number, counting and time through practical activities and everyday experiences. These opportunities will support the children to become happy, confident and independent learners.

Cwestiwn Hanfodol

Sut mae deall pwys ydw i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'm cwmpas? *How does understanding who I am and where I belong help me to understand myself, others and the world around me?*



Ymarfer Corff / P.E

Bydd y disgyblion yn gwneud gweithgareddau corfforol dyddiol yn y Dosbarth, ond bydd sesiwn penodol yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau corfforol ar ddydd Llun. Gofynnwn i'r disgyblion wisgo dillad priodol.

Pupils will take part in daily physical activities in the classroom, with a dedicated session focused on developing physical skills taking place on Monday. We kindly ask that pupils wear appropriate clothing for these activities.



Amser Antur/ Adventure Time

Gofynnwn i chi ddod ag esgidiau glaw a chot law wedi ei labelu gyda enw eich plentyn i'r ysgol i'w cadw yn yr Ysgol.

We ask that you bring a pair of wellington boots and a waterproof coat, labelled with your child's name, to school to be kept at the school.



Llais y Plentyn / Pupil Voice

Mae cael syniadau y plant yn helpu'n fawr i wneud y dysgu yn ystyrlon ac yn helpu'r plant ymgysylltu gyda'r dysgu. Gofynnwn i bawb ddychwelyd erbyn Dydd Llun 14.9.26.

Having the children's ideas help make the learning meaningful and helps the children to engage with their learning. All pupils to return by Monday 14.9.26.



Llais y plentyn - Pupil Voice

Pa bethau hoffai eich plentyn ddysgu yn yr ysgol y tymor hwn?
What would your child like to learn about at school this term?

Enw _____

Llyfrau Cymraeg / Welsh Books

Cyd-destun dysgu Dosbarth Derbyn y tymor hwn yw:
Our context of learning in Dosbarth Derbyn this term is:

Dyma fi / This is me

Sut mae deall pwy ydw i a ble rwy'n perthyn yn fy helpu i ddeall fy hun, eraill a'r byd o'n cwmpas?
How does understanding who I am and where I belong help me understand myself, others and the world around me?

Caneuon / Songs

Ardal allanol / Outdoor activity

Pa wybodaeth hoffech chi ei ddarganfod?
Pa gwestiynau sydd gennych?
What information would you like to discover? What questions do you have?

Ymwelwyr ac ymweliadau
Visitors and Visits



Amserlen / Timetable

Dyma drosolwg o amserlen wythnosol y dosbarth.
Bydd newidiadau achlysurol.

Here is an overview of our weekly timetable.

There will be occasional changes.

	Llun	Mawrth (CPA Arwain Pnawn)	Mercher	Iau (CPA Bore)	Gwener
9:00 -9:10	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio	Cofrestru a chinio
Sesiwn 1 9:15 –10:15	Gwasanaeth Ysgol Gyfan Dysgu'r Darpariaeth	Sesiwn dysgu y ddarpariaeth	Sesiwn dysgu y ddarpariaeth	Sesiwn dysgu y ddarpariaeth Mrs Earles a Miss Izzy	Sesiwn dysgu y ddarpariaeth
	Amser Cylch Trafod Carwsel laith 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Carwsel laith 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Carwsel laith 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Carwsel laith 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur Sesiwn Meddwlgarwch	Carwsel laith 1.Ffocws / Darllen Unigolion 2.Ffocws / Gorffen gwaith yr wythnos 3.Plant Pysur
Egwyl	-	-	-	-	-
Sesiwn 2 10:50-12:00	Mathemateg Ffocws Ffocws Plant Pysur	Sesiwn canu gyda Meithrin Sesiwn Mathemateg pen	Mathemateg 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Mathemateg Ffocws Ffocws Plant Pysur	Mathemateg 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur
Cinio	-	-	-	-	-
Sesiwn 3 1:30-2:30	Ymarfer Corff Sesiwn Meddwlgarwch	Mrs Earles a Miss Izzy Taith Ddysgu (Thema) 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Taith Ddysgu (Thema) 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur	Taith Ddysgu (Thema) 1.Ffocws 2.Ffocws 3.Plant Pysur Sesiwn canu cyfnod sylfaen	Gweithgareddau rhydd 'amser aur' yn ymwneud â'r thema.(Plant Pysur) 1.Ffocws Darllen Unigolion 2.Ffocws Gorffen gwaith yr wythnos 3.Plant Pysur
Egwyl	-	-	-	-	-
Sesiwn 4 2:50 – 3:30	Llaeth a snack Amser stori a chanu rhigymau	Llaeth a snack Amser stori a chanu rhigymau	Llaeth a snack Amser stori a chanu rhigymau	Llaeth a snack Amser stori a chanu rhigymau	Llaeth a snack Amser Cylch ffarwelio



Arian Byrbryd/ Snack money

Mae gallu paratoi, rhannu a bwyta'r ffrwythau a'r byrbryd wedi dod yn rhan bwysig o gwricwlwm ac amserlen dyddiol ein disgyblion ifancaf un ac yn sicr sy'n cael ei fwynhau ar y cyd.

Byddwn casglu arian ffrwyth yn ddigidol trwy system ParentPay, gan barhau i wneud hynny bob hanner tymor. Y gost am yr hanner tymor hwn fydd £10 ac mae'r taliad bellach yn barod ar ParentPay.

Mae talu am ffrwythau yn opsiynol i bob plentyn. Pe baech yn dewis peidio cyfrannu at arian ffrwyth y dosbarth, gofynnwn i chi sicrhau bod eich plentyn yn dod i'r ysgol bob dydd â byrbryd iach i'w fwyta yn ystod amser ffrwyth.



Arian Byrbryd/ Snack money

Being able to prepare, share and eat the fruit and snack has become an important part of our youngest pupils' daily curriculum and one that is certainly collectively enjoyed by many.

We will be collecting fruit money digitally through the ParentPay system, continuing to do so each half term. The cost for this half term will be £10 and the payment is now live on ParentPay.

Paying for fruit is optional for all children. Should you choose not to contribute to the class fruit money, we ask you to ensure that your child comes to school every day with a healthy snack to eat during snack time.



Bwyta'n iach / *Healthy eating*

Mae plant sydd yn bwyta'n iach yn dysgu'n well, yn teimlo'n well ac yn tyfu'n gryfach. Gofynnwn bod:

- pob byrbryd yn iach (e.e. ffrwyth neu lysiau)
- bocs bwyd cinio yn iach
- pob plentyn yn dod a photel dŵr i'r ysgol - dim ond dŵr
- torri grawnwin yn hanner
- enw plentyn ar bob bocs.

Children who eat healthily learn better, feel better and grow stronger. We ask that:

- all snacks are healthy(e.g. fruit or vegetables)
- healthy food in all lunch boxes
- every child brings a water bottle to school -water only
- any grapes are cut in half
- all boxes are labelled with a name



Dulliau Adferol/ *Restorative Approaches*

Rydym yn defnyddio Dulliau Adferol yn gyson ar draws yr ysgol er mwyn helpu plant i ddeall eu hemosiynau a'u hymddygiad ac i drwsio perthnasau pan fod angen. Fel rhan o hwn rydym yn

- Dewis anghenion dosbarth
- Cylch Croeso gyda Garth yr Arth bob bore Llun
- Cylch ffarwel gyda Garth yr Arth ar bawn Gwener
- Check-ins dyddiol i adnabod emosiynau

We use Restorative Methods consistently across the school to help children understand their emotions and behaviour and to repair relationships when needed. As part of this we:

- Choose class needs
- Welcome Garth yr Arth Circle every Monday morning
- Farewell circle with Garth Yr Arth on Friday afternoon to check-out
- Daily check-ins to identify emotions



Diogelwch ar y we

Online safety

Wrth i blant ddod yn fwy hyderus gyda thechnoleg, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r llwyfannau ar-lein y maent yn eu defnyddio gartref. Gall rhai apiau, gemau a safleoedd cyfryngau cymdeithasol gael effaith wirioneddol ar eu lles a'u hymddygiad yn yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi wirio'n rheolaidd beth mae eich plentyn yn ei ddefnyddio ar-lein, siarad â nhw am ddefnyddio'r we'n ddiogel ac yn gyfrifol, a gosod ffiniau priodol.

Drwy weithio gyda'n gilydd, gallwn helpu i gadw ein plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein ac yn yr ysgol.

As children grow more confident using technology, it's important to be mindful of the online platforms they are accessing at home. Some apps, games, and social media sites can have a real impact on their wellbeing and behaviour in school. We kindly ask parents and carers to regularly check what their child is using online, talk to them about safe and responsible use, and set appropriate boundaries.

Working together, we can help keep our children safe and happy both online and in school.

Darllen - Reading

Bydd ffeiliau darllen yn cael eu hanfon adref yn wythnosol. Bydd nodyn yn y pecyn darllen yn nodi pryd y bydd angen i'ch plentyn ei ddychwelyd i'r ysgol. Bydd llyfrau darllen, llythrennau a geiriau Tric a Chlic yn cael eu darllen yn y dosbarth yn ystod yr wythnos gyda'r staff. Byddwn yn cofnodi sylwadau am ddarllen eich plentyn yn y cofnod darllen.

Noder y gall y pecyn darllen gynnwys amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys llyfrau, gemau, llythrennau ac adnoddau Tric a Chlic, er mwyn cefnogi datblygiad darllen eich plentyn.

Gofynnwn yn garedig i chi barhau i ddarllen yn rheolaidd gyda'ch plentyn gartref ac i nodi sylwadau am ei ddarllen yn y cofnod darllen hwn. Byddwn yn gwneud ein gorau i edrych ar y rhain yn ystod sesiynau darllen ac yn ymateb yn briodol i unrhyw sylwadau.

Reading folders will be sent home weekly. A note in the reading pack will indicate when it needs to be returned to school. Reading books, letters and Tric a Chlic words will be read in class during the week with staff. We will record comments about your child's reading in the reading record.

Please note that the reading pack may contain a variety of resources, including books, games, letters and Tric a Chlic materials, to support your child's reading development.

We kindly ask that you continue to read regularly with your child at home and record comments about their reading in this reading record. We will do our best to review these during reading sessions and respond appropriately to any comments.



Llyfrau Darllen

Yn anffodus, mae nifer o lyfrau darllen yn cael eu colli am nad ydynt yn cael eu dychwelyd i'r ysgol. Mae hyn yn lleihau'r nifer o lyfrau darllen sydd ar gael i bawb ac yn gostus i'r ysgol. Byddwn yn gofyn am daliad cyfwerth â chost llyfrau nad sydd yn cael eu dychwelyd i'r ysgol. Os oes llyfrau darllen yr ysgol gennych adre, gofynnwn i chi eu dychwelyd i'r ysgol yn syth. Diolch yn fawr.

Reading Books

Unfortunately, many reading books are lost because they are not returned to school. This reduces the number of reading books available to all our children and is costly for the school. We will ask for a payment equivalent to the cost of any books that are not returned to school. We ask that any books that you currently have at home are returned to school immediately. Diolch yn fawr.



Darllen - Reading

Cefnogi darllen yn y cartref - Supporting reading at home:


Darllen Co.

<https://www.darllenco.wales/>

Mwynhewch ein adnodd darllen 'DarllenCo.' drwy ddewis y ddolen uchod.

Cofiwch ddefnyddio eich manylion Hwb er mwyn mewngofnodi a mwynhau'r dewis eang o lyfrau Cymraeg!

Enjoy our reading resource 'DarllenCo.' by selecting the link above. Remember to use your Hwb details to log in and enjoy the wide selection of Welsh books!



Gwaith cartref ~ Homework

Prosiectau Tymhorol

Y bwriad yw sicrhau'r cydweithio rhwng plentyn a rhiant a dyfnhau'r dysgu tra'n rhyddhau amser i fwynhau gyda teulu a ffrindiau.

Gwaith cartref y tymor hwn yw i'r plant greu portread o'u hunain gan ddefnyddio deunyddiau naturiol, er enghraifft dail, brigau, blodau, cerrig neu ddeunyddiau eraill y dewch o hyd iddynt yn yr awyr agored. Gallwch fod mor greadigol ag y dymunwch! Os y dymunwch gallwch dynnu llun o'r gwaith a dod a'r ffotograff i'r ysgol neu ddod a'r gwaith gwreiddiol i'r ysgol.

Dyddiad dychwelyd y gwaith cartref yw **02/11/26**

Bydd y gwaith cartref yn cael ei osod ar gyfri See Saw eich plentyn.

Termly Projects

It is intended that these termly projects will continue to ensure collaboration between child and parent and deepen the learning while freeing up time to enjoy valuable time with family and friends.

The homework task will be set on your child's See Saw account.

This term's homework is for the children to create a portrait of themselves using natural materials, for example leaves, twigs, flowers, stones, or any other materials you can find outdoors. Please feel free to be as creative as you wish! If you wish you are welcome to take a photo of the work and bring the photograph into school or send the original work into school.

The return date for the homework is **02/11/26**.

Thank you for your continued support.

Addysg Gorfforol / *Physical Education*

Un waith yr wythnos: Dydd Llun *Once a week: Monday*

- Pawb i gymryd rhan yn gwisgo cit addas - siorts du/trowsus du a chrys-t glas golau plaen neu grys-t gyda logo'r ysgol gyda siwmpwr neu gardigan yr ysgol.
- **Popeth wedi labelu!!!**
- *All children to participate wearing appropriate kit - black shorts/trousers and a plain light blue t-shirt or light blue shirt with the schools logo accompanied with the school jumper or cardigan.*
- *Please label everything!!!*

Darparwch lythyr i esbonio os yw eich plentyn methu cymryd rhan yn y sesiwn os gwelwch yn dda.

Please provide a letter if your child is unable to participate in the session.



See Saw

- Lluniau o weithagreddau dosbarth neu ymweliadau yn wythnosol.
 - Gwybodaeth a threfniadau yn achlysurol e.e. diwrnod dillad eich hunain.
 - Ddim yn lwyfan i ofyn cwestiynau, ni fyddwn yn ymateb. Os oes unrhyw gwestiwn, cysylltwch gyda ni!
 - Bydd e bost yn eich cyrraedd i chi er mwyn i chi ymuno ar gyfri See Saw eich plentyn
-
- *Pictures of weekly class activities and visits.*
 - *Information about events or activities that will be happening within the school e.g. own clothes day.*
 - *Not a platform to ask questions, we will not respond. If you do have any questions please contact us via a phone call, letter or at the end of the day.*
 - *You will receive an e mail to let you join your child's SeeSaw account.*



Instagram

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i ddefnyddio cyfrif Instagram yr ysgol i rannu'r dysgu a'r profiadau gwyh sy'n digwydd ledled yr ysgol. Mae'r llwyfan hwn yn ein galluogi i ddathlu cyflawniadau'r plant ac i roi cipolwg i deuluoedd ar fywyd bob dydd yn yr ysgol. Dim ond pan fyddwn wedi derbyn caniatâd gan rieni neu warcheidwaid y byddwn yn postio lluniau neu fideos o blant.

We're excited to continue using our school's Instagram account to share the wonderful learning and experiences taking place across the school. This platform allows us to celebrate the children's achievements and give families a glimpse into daily life at school. We will only post photos or videos of children when we have received permission from parents or guardians to do so.

Cyfathrebu gyda Staff

Mae sicrhau bod ein bod yn cydweithio'n agos â chi er gallu mwyn cefnogi ein disgyblion yn bwysig iawn i ni. Pe bai materion penodol yn ymwneud â'ch plentyn sydd angen i chi eu trafod gyda staff, gofynnwn i chi wneud hynny wrth gasglu plant ar ddiwedd dydd **neu** trwy ffonio / ebostio'r **swyddfa**, yn hytrach na staff yn uniongyrchol, er mwyn i neges gael ei drosglwyddo at y staff. Byddai hyn o gymorth mawr i ni.

Ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk

Communicating with staff

Ensuring that we work closely with you to be able to support our pupils is very important to us. Should there be specific issues relating to your child that you need to discuss with staff, we ask that you do so when picking up children at the end of day **or** by calling / emailing the **office** (rather than staff directly) so that a message can be passed to staff. This would be a great help to us.

ysgolgwaelodygarth@cardiff.gov.uk



Diolch am eich cefnogaeth barhaus.
Thank you for your continued support.



Ysbrydoli Cefnogi Llwyddo